# Parc Coedwig Gwydyr Forest Park

# Mainc Llifio | Sawbench

## Croeso i Barc Coedwig Gwydyr

Parc Coedwig Gwydyr yw'r fynedfa i'r tirweddau enwog llawn coedwigoedd, llynnoedd a mynyddoedd sy'n gyfarwydd i genedlaethau o ymwelwyr ers Oes Fictoria.

Pa un ai ydych eisiau mwynhau prysurwch Betws-y-Coed, mynd am dro yn y goedwig, rhoi tro ar lwybr beicio mynydd sy'n dipyn o her, ymweld â'n rhaeadrau neu ddarganfod hanes hudol yr ardal hon, mae gan Wydyr rywbeth i chi.

## Welcome to Gwydyr Forest Park

Gwydyr Forest Park is the gateway to the celebrated landscapes of woodlands, lakes and mountains familiar to generations of visitors since Victorian Times.

Whether you want to enjoy the bustle of Betws-y-Coed, walk in the countryside, try a white-knuckle mountain bike ride, visit our waterfalls or discover this area's fascinating history, Gwydyr has something for you.




LAWRLWYTHWCH EIN **HAPIAU DI-DÂL** ar gyfer Android ac iPhone | DOWNLOAD OUR **FREE APPS** for Android and iPhone

**CYMRU | WALES PlacesToGo®**

I ganfod lleoedd eraill ardderchog CNC y gellir ymweld â hwy yng Nghymru.

To find other great NRW places to visit in Wales.

iPhone / Android

**CYMRU | WALES PlaceTales®**

I ganfod nodweddion hynod ddifyr yng nghoedwigoedd CNC a Gwarchodfeydd Natur Cenedlaethol.

To discover fascinating features in NRW forests and National Nature Reserves.

iPhone / Android

Prynwch **BECYN LLWYBRAU CERDDED** o Ganolfan Groeso Betws-y-Coed

Buy a Gwydyr **WALKS PACK** from Betws-y-Coed Information Centre

## Parc Coedwig Gwydyr Forest Park




Mae'r parc coedwig yn safle o ddefnydd cymysg, byddwch yn ymwybodol fod yna bosibilrwydd y dewch ar draws cerddwyr, cŵn, beiciau mynydd, ceffylau neu gerbydau ar unrhyw adeg.

The forest park is a mixed-use site, please be aware that you may come across walkers, dogs, mountain bikes, horses or vehicles at any time.


Atgynhyrchir y map hwn o Ddeunydd yr Arolwg Ordnans gyda chaniatâd Arolwg Ordnans ar ran Rheolwr Llyfrfa Ei Mawrhydi. © Hawlfraint y Goron a hawliau cronfa ddata 2015 Arolwg Ordnans 100019741. 2015


## Llwybrau Cerdded Mainc Llifio | Sawbench Walking Trails




### Llwybr yr Arglwyddes Fair | Lady Mary's Walk

Dilynwch yr arwyddion gwyn

Follow the white waymarker symbol

**Cymedrol**
Pellter: 1.3 milltir/2.1km
Amser: 1 awr
Dringo: 360tr/109m

**Moderate**
Distance: 1.3 miles/2.1km
Time: 1 hour
Climb: 360ft/109m

UCHAFBWYNTIAU:
**Golygfeydd godidog sy'n frith o hanes.**

DISGRIFIAD: Mae'r daith hon yn dilyn ffyrdd coedwig a llwybrau culion, gydag allt serth o'r maes parcio a dau rwystr gosod.

HIGHLIGHTS:
**Amazing views steeped in history.**

DESCRIPTION: The trail follows forest roads and narrow forest paths, with a steep climb from the car park with two chicanes.




**Llwybr MP3 Arglwyddes Mair**
**Lady Mary's MP3 trail**

**Cymedrol**
Pellter: 2.9 milltir/4.6km

**Moderate**
Distance: 2.9 miles/4.6km

**CYMRU | WALES PlaceTales®**

Lawrlwythwch ein **hap ffôn clyfar PlaceTales Cymru|Wales NRW di-dâl**
Darganfyddwch hanes lliwgar Llanrwst a theulu enwog Wyniaid Gwydir ar y llwybr clywed hwn. Dechreuwch o 8 munud i mewn i'r recordiad er mwyn codi'r trywydd oddi yma.

Download our **free PlaceTales Cymru|Wales NRW Smartphone app** to discover Llanrwst's colourful history and the famous Wynns of Gwydyr on this audio trail – start from 8 minutes into the recording to pick up the trail from here.


This map is based upon Ordnance Survey material with the permission of Ordnance Survey on behalf of the controller of Her Majesty's Stationary Office © Crown copyright and database rights 2015 Ordnance Survey 100019741. 2015


## Croeso i'r Fainc Llifio

**Gallwch ymuno â Llwybr coedwig yr Arglwyddes Fair yma neu'r llwybr beicio mynydd Marin eiconig** (gweler y paneli beicio mynydd ar wahân).

Os ydych eisoes wedi lawrlwytho mp3 Taith Sain yr Arglwyddes Fair ar mp3, y prif fan cychwyn yw'r maes parcio yn union cyn y bont i Lanrwst, ac mae'n dilyn llwybr estynedig: ond gallwch ymuno â'r llwybr ym maes parcio Sawbench, 8 munud ar ôl dechrau'r recordiad. Cewch eich tywys gan y Foneddiges Fair, ysbrydion ei hynafiaid a Dafydd ap Siencyn a'i saethyddion wrth i chi gerdded. Cynhwysir y llwybr clywed, map a gwybodaeth yn ein hap PlaceTales rhad ac am ddim.

## Welcome to Sawbench

**You can join Lady Mary's forest walk from here or the iconic Marin mountain bike trail** (see separate mountain bike panels).

If you have already downloaded the Lady Mary's Walk mp3 Audio Trail, the main start is from the car park just before the bridge into Llanrwst and follows an extended route, but you can join the trail at Sawbench car park, 8 minutes into the recording. You will be accompanied by Lady Mary, the ghosts of her ancestors and Dafydd ap Siencyn and his bowmen as you walk. The audio trail, map and information are included in our free PlaceTales app.



www.cyfoethnaturiolcymru.gov.uk
www.naturalresourceswales.gov.uk

| | |
|---|---|
| parcio | parking |
| gwybodaeth | information |
| mynediad rhwydd | easy access |
| toiledau | toilets |
| caffi | café |
| lle picnic | picnic area |
| llogi beic | bike hire |
| llwybrau beicio mynydd | mountain bike trails |
| llwybrau cerdded | walking trails |
| golygfan | viewpoint |

Noddir gan Lywodraeth Cymru
Sponsored by Welsh Government